Sir Ddinbych

Y Cynllun MAWR:

Rhan I, 2011-14

YMGYNGHORIAD DRAFFT:

Hydref 2010

Denbighshire Local Service Board
Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Ddinbych

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Ddinbych
Denbighshire Community Safety Partnership
magu hyder: building confidence

Sir Ddinbych Iach
Healthy Denbighshire

Partneriaeth Plant a Phobol Ifanc Sir Ddinbych
Denbighshire Children & Young People's Partnership

Printiwyd ar bapur wedi ei ailgylchu

Y Syniad MAWR sydd y tu ôl i'r Cynllun MAWR

Mae'n RHAID i bob awdurdod lleol ynghyd â'u partneriaid ddatblygu a chyhoeddi:

- Strategaeth Gymunedol (10-15 mlynedd)
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (3 blynedd)
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc (3 blynedd)
- Cynllun Diogelwch Cymunedol (3 blynedd)

Yn Sir Ddinbych, fe gytunodd partneriaid i ddatblygu dull newydd ac i gyfuno Strategaeth Gymunedol ddiwygiedig efo'r rownd nesaf o gynlluniau a strategaethau ar gyfer 2011-2014. Y Cynllun MAWR yn sylfaenol ydi:

Strategaeth Gymunedol	+	Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	+	Cynllun Plant a Phobl Ifanc	+	Cynllun Diogelwch Cymunedol	=	**Y Cynllun MAWR**
Gweledig-aeth strategol tymor hir ar gyfer y sir		Strategaeth i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles		Cynllun strategol ar gyfer popeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc		Cynllun amlasiant-aeth i daclo trosedd ac anhrefn yn y sir		

Pwy yw ein Partneriaid?

Ein partneriaid yw'r sefydliadau o bob sector sy'n aelodau o'r tair Partneriaeth leol: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol; Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles; a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Beth ydi'r Cynllun MAWR: Rhan I, 2011-14?

- Y Cynllun MAWR: Mae Rhan I yn nodi'r pethau y dylen ni eu gwneud yn gyntaf yn 2011-2014, yr hyn fyddwn ni'n eu galw'n "Ganlyniadau Blaenoriaeth"
- Fe fydd yn ennill ymrwymiad gan ein partneriaid i gyflawni'r "Canlyniadau Blaenoriaeth"
- Bydd yn canolbwyntio ar y "gwerth ychwanegol" a ddaw dim ond drwy weithio mewn partneriaeth
- Bydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau
- Y Cynllun MAWR: Rhan II, III, etc fydd yn nodi "Canlyniadau Blaenoriaeth" newydd sydd i'w taclo yn 2014 a 2017, etc.



Y Cynllun MAWR: cysylltu popeth

Yn Sir Ddinbych, rydyn ni'n symud o ddatblygu nifer o strategaethau a chynlluniau gwahanol sydd â llawer o bethau'n gyffredin fel:

- Edrych ar anghenion cymunedau
- Cysylltu ein hadnoddau â'r "Canlyniadau Blaenoriaeth" yn Y Cynllun MAWR
- Cynllunio a sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau i gyfarfod ag anghenion
- Cysylltu'r hyn a wnawn ni yn Sir Ddinbych efo'r hyn sy'n digwydd drwy Gymru
- Cynnwys ein cymunedau a chael adborth ganddyn nhw
- Edrych ar beth rydyn ni'n ei wneud, pa mor dda ydyn ni am ei wneud o a phwy sy'n elwa
- Gofalu ein bod ni'n gwneud yr hyn yr oedden ni'n dweud y bydden ni'n ei wneud
- Edrych ar ffyrdd newydd o weithio gyda Phartneriaid os ydi hynny'n gwneud gwahaniaeth positif i Sir Ddinbych
- Datblygu a hyfforddi ein gweithlu.

Fe fydd Y Cynllun MAWR yn:

- Lleihau dyblygu
- Cyfarfod â gofynion statudol
- Cael ei gefnogi gan dîm unigol
- Ein galluogi i ganolbwyntio ein hegni a'n pwyslais ar **ddarparu gwasanaeth – ar wneud gwahaniaeth**.

Y Cynllun MAWR: canolbwyntio ar yr hyn sy'n cyfri fwyaf

Yn Sir Ddinbych mae'r Cynllun MAWR wedi ei ddatblygu gyda chymorth tîm prosiect amlasiantaeth a oedd yn gyfrifol am:

- Edrych ar anghenion cymunedau
- Cynnwys ein Partneriaid a chael adborth ganddyn nhw, yn cynnwys casglu llawer o syniadau ardderchog sydd wedi eu hystyried ac a fydd yn parhau i gael eu hystyried
- Ymateb i adborth gan Bartneriaid
- Ennill cymeradwyaeth gan fyrddau partneriaeth strategol lleol
- Cael cefnogaeth gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

Fe fydd Y Cynllun MAWR yn:

- Canolbwyntio ar nifer fechan o "Ganlyniadau Blaenoriaeth"
- Cydnabod fod yr hinsawdd economaidd yn heriol a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau caled
- Ein helpu i symud o siarad i weithredu, drwy ganolbwyntio ar gamau a fydd yn gwneud gwahaniaeth
- Cysylltu â strategaethau a chynlluniau allweddol eraill, fel 'Ein Cynllun Pum Mlynedd (2010-15)' gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 'Ein Dyfodol Iach' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynllun Datblygu Lleol.

Darganfod beth mae ein cymunedau ei angen o'r Cynllun MAWR!

Rydyn ni'n mynd â'r Cynllun MAWR allan i gymunedau yn Sir Ddinbych. Efallai y gwelwch chi ni yn y lleoedd canlynol:

Archfarchnadoedd



Meddygfeydd doctoriaid

Canolfannau hamdden

Grwpiau pobl hŷn

Grwpiau plant a phobl ifanc

Cyfarfodydd lleol

I gael gwybod mwy, edrychwch ar Y Cynllun MAWR ar www.sirddinbych.gov.uk neu www.sirddinbychiach.co.uk .

Mae'r Cynllun MAWR yn fargen FAWR!



Pwy ydi'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol a beth mae o'n ei wneud?

Mae Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Ddinbych yn dod ag arweinwyr gwasanaethau Sir Ddinbych at ei gilydd fel y gallan nhw weithio efo'i gilydd a gwneud gwasanaethau'n fwy effeithiol.

Er enghraifft, lle bydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan ystod o wahanol sefydliadau, fe all y Bwrdd Gwasanaeth Lleol newid eu patrwm o weithio yn eu sefydliadau eu hunain, i sicrhau darpariaeth well gydag eraill.

Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn cynnwys cynrychiolwyr:

- Yr Awdurdod Lleol
- Addysg Bellach ac Addysg Uwch
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Y Sector Wirfoddol/Trydydd Sector
- Bwrdd Lleol Diogelu Plant
- Byrddau Partneriaeth Strategol Lleol.

Denbighshire Local Service Board
Bwrdd Gwasanaeth Lleol Sir Ddinbych

Bydd Y Cynllun MAWR yn gwneud gwahaniaeth

Sut fyddwn ni'n gwybod os bydd Y Cynllun MAWR wedi gwneud gwahaniaeth?

Drwy ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau!

Rydyn ni'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniad, ar sail Atebolrwydd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau, i'n helpu i symud o siarad i weithredu; i wella bywydau pobl yn Sir Ddinbych – i gyflawni canlyniadau gwell

Dyma'r math o gwestiynau y byddwn ni'n eu gofyn:

1. Pa ansawdd bywyd ydyn ni'n ei ddymuno i bobl Sir Ddinbych?
2. Sut olwg fyddai arno fo pe gallen ni ei weld o?
3. Sut fyddwn ni'n gwybod os byddwn ni'n cyflawni ansawdd bywyd gwell?
4. Sut ydyn ni'n gwneud?
5. Pwy sydd â rhan mewn gwneud yn well?
6. Sut allwn ni wneud yn well?
7. Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd?

Faint ydyn ni wedi ei wneud?

Pa mor dda y cafodd o'i wneud?

Ydi pobl yn Sir Ddinbych ar eu hennill o ganlyniad?

(Canolbwyntio ar effaith nid ymdrech)

Fe fydd gan Y Cynllun MAWR gynlluniau gweithredu



Pan fydd y “Canlyniadau Blaenoriaeth” wedi eu dwyn i ben pan fydd ymgynghoriad Y Cynllun MAWR wedi ei gwblhau, bydd cynlluniau gweithredu’n cael eu datblygu.

Fe fydd y cynlluniau gweithredu’n:

- Glir ynglŷn â sut a phwy fydd yn gwneud beth, ac erbyn pa bryd
- Sicrhau y bydd pa gamau bynnag a gymrwn ni’n gwneud gwahaniaeth
- Cael eu hadolygu a’u monitro’n rheolaidd
- Cyhoeddi adroddiadau cynnydd yn flynyddol.

Y Cynllun MAWR: Rhan I, 2011-14 – Y "Canlyniadau Blaenoriaeth"

Cydweledigaeth y Bwrdd Gwasanaeth Lleol ar gyfer Sir Ddinbych yw iddi fod yn sir sy'n llewyrchus ac yn gynaliadwy a'i bod yn lle saff i fyw, lle bydd pobl yn teimlo'n iach a'u bod yn cael eu cynnal; lle mae pobl yn annibynnol.

Fe ddywedodd pobl yn Sir Ddinbych wrthym ni mai dyma oedd eu dymuniad:

- **Bod yn iach a bod â synnwyr o les**
- **Byw mewn lle saff**
- **Gallu fforddio i gyfarfod â'u hanghenion**
- **Byw yn Sir Ddinbych am ei bod yn lle ardderchog i fyw, i weithio ac i ddysgu**

Y canlyniadau'r ydyn ni am eu cyflawni gyda'r Cynllun MAWR Rhan I, 2011-14:

- Pobl hŷn yn byw bywydau annibynol a chyflawn
- Pobl a lleoedd yn Y Rhyl yn elwa o weithgaredd adfywio
- Pobl ifanc yn Sir Ddinbych yn cyflawni ac â sgiliau bywyd
- Teuluoedd bregus yn Sir Ddinbych yn cael eu cynorthwyo i fyw bywyd yn annibynnol ac i ffynnu
- Pobl mewn ardaloedd gwledig yn derbyn gwasanaethau sy'n hygyrch ac sy'n cyfarfod ag anghenion lleol
- Pobl yn Sir Ddinbych yn yfed alcohol ar lefel sy'n saff ac yn synhwyrol
- Plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn Sir Ddinbych yn saff

Er mwyn i ni gyflawni'r Cynllun MAWR fe fydd angen i ni weithio mewn ffordd **integredig**, **ymgysylltu â'n cymunedau** a bydd angen i ni ddatblygu ein **gweithlu**.

Byddwn yn cymryd agwedd sy'n **canolbwyntio ar y person**, ac ar **ymyriad cynnar** ac **atal**.

Esiampl i esbonio sut y bydd siarad yn troi'n weithredu

Y Cynllun MAWR: Rhan I, 2011-14 "Canlyniadau Blaenoriaeth"

Plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn Sir Ddinbych yn saff

Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn cadw plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn saff (yr hyn a alwn ni'n Ddangosyddion Llwyddiant)

- Llai o anafiadau plentyndod
- Llai o bobl fregus mewn perygl o gamdriniaeth
- Llai o feichiogrwydd yn yr arddegau

Byddwn yn gwybod fod ein gweithrediadau'n cyfrannu tuag at ein "Canlyniad Blaenoriaeth" drwy ofyn y cwestiwn hwn

Yr hyn fyddwn ni'n ei wneud i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn saff

Esiampl o gamau Partneriaeth a fydd yn cyflawni ein "Canlyniad Blaenoriaeth"

Camau *(ESIAMPL ENGHREIFFTIOL – HEB EI GYTUNO)*	Arweiniad	Adnoddau
1. Datblygu a gweithredu fframwaith amlasiantaeth ar gyfer asesu, yn cynnwys esgeulustod	Arweinir gan A	Cyllid XX
2. Gweithredu rhaglen Hyfforddi Ymwybyddiaeth a Datblygu Sgiliau Pobl Fregus	Arweinir gan B	Adnoddau presennol
3. Datblygu cynllun addysg iechyd rhyw cyfoedion i rai 11-25 oed	Arweinir gan C	Grant XX

Oes rhywun yn well eu byd o ganlyniad? Ydi pobl yn saffach

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r Cynllun MAWR?

Rydyn ni'n awyddus i wneud popeth sy'n ymwneud â'r Cynllun MAWR mor syml ac mor ganolbwyntiedig ag sydd bosib.

Ond beth ydi'ch barn CHI?

I roi eich barn i ni, neu i ofyn am Y Cynllun MAWR mewn fformat gwahanol cysylltwch â ni yn:

RHADBOST RLYH-KRTA-XBTA Tîm Partneriaethau a Chymunedau, Swyddfeydd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun LL15 1YN

01824 712 647 / cefnogi.partneriaeth@sirddinbych.gov.uk

Felly, beth ydych CHI'n ei feddwl?

Rhowch eich barn! Llenwch yr holiadur sydyn yma a'i roi yn un o flychau'r Cynllun MAWR mewn lleoliadau cymunedol o gwmpas Sir Ddinbych, neu anfonwch o'n ôl atom ni yn y cyfeiriad uchod cyn Ionawr 30 2011!

1. TICIWCH y 3 "Chanlyniad Blaenoriaeth" pwysicaf i chi?

Pobl hŷn yn byw bywydau annibynnol a chyflawn ☐

Pobl a lleoedd yn Y Rhyl yn elwa o weithgaredd adfywio ☐

Pobl ifanc Sir Ddinbych yn cyflawni ac â sgiliau bywyd ☐

Teuluoedd bregus yn Sir Ddinbych yn cael cymorth i fyw bywyd annibynnol ac i ffynnu ☐

Pobl mewn ardaloedd gwledig yn derbyn gwasanaethau sy'n hygyrch ac sy'n cyfarfod ag anghenion lleol ☐

Pobl yn Sir Ddinbych yn yfed alcohol ar lefel sy'n saff ac yn synhwyrol ☐

Plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn Sir Ddinbych yn saff ☐

2. Beth sydd angen ei wneud er mwyn i hyn ddigwydd?

3. Oes yna rywbeth pwysig yr ydyn ni wedi ei fethu?

4. Ym mha ardal ydych chi'n byw? Er enghraifft Dyserth, Cynwyd, etc

Os hoffech chi gymryd rhan am ddim yn y tyniad gwobr, rhowch eich enw a'ch cyfeiriad i ni!

Enw / Cyfeiriad / Ffôn:

DIOLCH